# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Pili Pala**

**Clwb Rygbi Rhymni**
**Hartland Road Llanrhymni**
**Caerdydd**
**CF3 4JL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Pili Pala

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Pili Pala |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Arolygiad â ffocws penodol oedd hwn ac, ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi ystyried pob thema yn llawn.

Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Maent yn ffurfio cydberthnasau cynnes â'r staff gofal ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau. Caiff y plant gyfleoedd da i feithrin eu cydberthnasau a'u hannibyniaeth drwy gyfuniad o chwarae rhydd a gweithgareddau â ffocws. Ar y cyfan, mae'r staff gofal yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

Mae’r safle yn ddiogel. Mae asesiadau risg yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol sy'n nodi risgiau diangen i'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau risg tân na'r trefniadau tân yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau hysbysadwy a chedwir cofnodion. Mae'r arweinydd sydd newydd ei benodi yn ymrwymedig i ddatblygu'r lleoliad, er mwyn gwella'r canlyniadau i'r plant.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth i chwarae yn un o'r ardaloedd dysgu sydd ar gael. Maent yn gwybod y gallant ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn. Roeddent yn hyderus ac yn hapus i siarad â ni (Arolygiaeth Gofal Cymru) am eu gweithgareddau. Er enghraifft, daeth un plentyn atom, gan ddangos lori a sut roedd yn gallu ei defnyddio i symud tywod.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn briodol. Ar y cyfan, mae'r plant yn chwarae'n llwyddiannus gyda'i gilydd. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn y gegin chwarae rôl, yn paratoi bwyd ac yn cymryd eu tro. Maent yn hapus i'n cynnwys yn eu trafodaethau am beth i'w gael i frecwast.

Mae'r plant yn hapus wrth chwarae a dysgu. Maent yn ymroi i'w gweithgareddau eu hunain, gyda ffrindiau neu mewn grwpiau bach. Mae mwyafrif y plant yn canolbwyntio'n dda, gan gynnal diddordeb yn y gweithgareddau y maent wedi dewis eu gwneud am gyfnodau estynedig, yn enwedig gyda chymorth oedolyn. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn hapus wrth ganu mewn gweithgaredd canu ar y mat dan arweiniad oedolyn. Caiff plant nad ydynt wedi setlo eu cysuro mewn modd cynnes.

Mae'r plant yn datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth drwy'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu. Maent yn dysgu sut i gydweithredu ac ymgysylltu â'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, gwelsom ddau blentyn yn chwarae yn y tywod, gan ymwneud â'i gilydd yn briodol a gyda'r oedolyn a oedd yn eu cefnogi.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Yn gyffredinol, mae'r staff gofal yn cadw'r plant yn ddiogel drwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cadw at weithdrefnau dyddiol y lleoliad yn briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhestrau gwirio dyddiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn dilyn polisïau'r lleoliad ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sydd wedi digwydd yn barod. Ni fu'n rhaid iddynt roi meddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn ddiogel drwy gloi'r drws allanol. Mae cloch ar gyfer casglu'r plant a chedwir cofnodion ymwelwyr. Mae'r staff gofal yn llofnodi i mewn ac allan o'r adeilad ac yn cofnodi eu hegwyliau. Caiff tymheredd yr ystafell ei fonitro, a chymerir camau os yw'n rhy oer i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn bwriadu cadw cofnodion o dymheredd yr ystafell yn y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau diogelwch a llesiant y plant. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer yr amgylchedd ac maent wedi'u hadolygu. Mae asesiadau risg yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol, sy'n nodi risgiau diangen i'r plant ac yn eu dileu cymaint â phosibl. Er enghraifft, caiff pibellau sydd yn y golwg eu gorchuddio ac mae caeadau ar finiau. Cwblheir gwiriadau diogelwch perthnasol, ac mae copïau ar gael i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r risgiau amgylcheddol, y peryglon a'r mesurau diogelwch bellach wedi ei gau.

Mae asesiad risg tân ar waith. Fodd bynnag, nid yw'n adlewyrchiad cywir o'r lleoliad. Mae'n nodi bod larwm tân yn cael ei brofi, ond nid oes larwm tân yn yr adeilad. Mae gweithdrefn i'w dilyn os bydd tân ac mae pob aelod o'r staff yn gwisgo chwiban er mwyn gallu rhybuddio pawb os bydd angen. Fodd bynnag, nid oes system canfod tân ar waith ac nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant atal tanau. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn anghyson. Mae'r person â chyfrifoldeb sydd newydd ei benodi wrthi'n ymgyfarwyddo â'r rôl arwain yn y lleoliad. Mae'n ymrwymedig i wella ac wedi dechrau mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr arolygiad llawn diwethaf. Fodd bynnag, nid yw disgrifiad swydd yr arweinydd yn adlewyrchu ei ddyletswyddau yn y lleoliad. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol fel Dechrau'n Deg, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag AGC, fel y rheoleiddwyr, ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys. Cedwir cofnodion mewn perthynas â'r hysbysiadau hyn. Mae'r system ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sydd wedi digwydd yn barod yn faes i'r lleoliad ei wella. Mae'r cofnodion hyn bellach yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthi'n llunio ffurflen addas i gofnodi'r broses o roi meddyginiaeth. Caiff y ffurflen hon ei hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cadw cofnod o dymheredd yr ystafelloedd.

A2. Adolygu disgrifiad swydd yr arweinydd a sicrhau ei fod yn adlewyrchu ei ddyletswyddau'n gywir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Methodd yr unigolyn cyfrifol â chynnal asesiadau risg cadarn ar gyfer pob rhan o'r lleoliad ac nid yw'n nodi pob risg i'r plant yn effeithiol. Methodd â sicrhau bod pob gwiriad diogelwch, y mae llawer ohonynt wedi'u nodi yn yr asesiadau risg ar gyfer yr amgylchedd, wedi'i gwblhau a'i wirio mewn modd amserol. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r amgylchedd yn cynnwys risgiau y gellir eu hosgoi ac i sicrhau bod yr holl wiriadau diogelwch ar waith. Rhaid i'r unigolyn sicrhau bod asesiadau risg | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | yn nodi'r risgiau i'r plant yn effeithiol a bod camau gweithredu prydlon yn cael eu cymryd lle bo angen. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod rhagofalon digonol rhag y risg o dân ar waith a gwneud trefniadau i'r staff gael hyfforddiant atal tanau priodol. | Newydd |
| 30 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw ar gyfer damweiniau, digwyddiadau, anafiadau sydd wedi digwydd yn barod a meddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Rhaid i'r unigolyn sicrhau y caiff cofnodion cywir eu cadw'n gyson. | Adolygwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/04/2023